EICH CANLLAW I GANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF (CAGCau) YM MERTHYR TUDFUL

EICH CANLLAW I GANOLFANNAU AILGYLCHU GWASTRAFF Y CARTREF (CAGCau) YM MERTHYR TUDFUL

Wrth ddilyn yr hierarchaeth gwaredu gwastraff, dylai fod gennym oll reolaeth gynaliadwy dros ein deunyddiau gwastraff trwy ddewis eu hailddefnyddio, eu hailgylchu a'u compostio yn hytrach na'u taflu i ffwrdd, er mwyn troi gwastraff yn ynni (EFW).

Beth yw CAGC?
Mae'r Awdurdodau Lleol yn darparu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref neu CAGCau fel bod preswylwyr y Fwrdeistref Sirol yn ailddefnyddio, yn ailgylchu, yn compostio ac yn cael gwared ar eu gwastraff cartref mewn ffordd gynaliadwy. Mae hyn yn oblygiad cyfreithiol o dan adran 51 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Ble maen nhw?
Ceir dwy CAGC yn y Fwrdeistref Sirol sef:

Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Aber-fan
Heol Aber-fan
Aber-fan
Merthyr Tudful
CF48 4QE Rhif trwydded ERP/ZB3197TJ

Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Dowlais
Y Bont
Hen Heol Gellifaelog
Dowlais
Merthyr Tudful
CF48 3DA Rhif trwydded ERP/ZB3797TH

Pryd ydyn nhw ar agor?

Rhwng Ebrill – Hydref Amser Haf Prydain	09.00 - 20.00 19.50 mynediad olaf	09.00 - 20.00 19.50 mynediad olaf
Rhwng Tachwedd - Mawrth Amser Gaeaf Prydain	09.00 - 16.30 16.20 mynediad olaf	09.00 - 16.30 16.20 mynediad olaf

Mae'r ddau safle ar agor saith diwrnod yr wythnos drwy'r flwyddyn ac eithrio 25 a 26 Rhagfyr ac 1 Ionawr.

Caniateir mynediad olaf i'r safle 10 munud cyn yr amser cau.

Pwy sy'n rheoli'r CAGCau?

O 1 Medi 2018, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n rheoli ac yn gweithredu'r ddwy CAGC.

NODER: Mae'r CAGCau ar gyfer gwastraff y cartref yn unig. Dim ond o dan y Cynllun Derbyn Ailgylchu Masnachol y bydd gwastraff masnach yn cael ei dderbyn.

Deunyddiau a dderbynnir yn y CAGCau i'w hailgylchu:

Caiff plastrfwrdd ac ychydig bach o asbestos eu derbyn yn safle Dowlais yn unig. Ni ddylai asbestos gael ei dorri i fyny a rhaid ei roi mewn dau fag dwbl cyn dod ag e i'r safle. Derbynnir eitemau o ddodrefn dieisiau yn y ddau safle hefyd.

Gall y rhestr hon newid gan fod CBSMT yn gwneud pob ymdrech i gynyddu'r deunyddiau ar gyfer eu hailddefnyddio a'u hailgylchu.

Gwastraff Cyffredinol

Gall preswylwyr gael gwared ar beth gwastraff na ellir mo'i ailgylchu yn y safleoedd. Gyhyd ag y bo'n ymarferol, rhaid i bopeth y gellir ei ailgylchu gael ei wahanu a'i osod yn y cynwysyddion priodol ar gyfer ailgylchu.

DS: Gellir gwahanu peth deunyddiau cymysg yn y gorsafoedd didoli a ddarperir. Os bydd gweithredwyr y safle o'r farn fod gennych ormod o wastraff halogedig, yna caiff ei droi ymaith o'r safle, a chynghorir defnyddiwr y safle i'w ddidoli yn ei darddle cyn dychwelyd yno.

Dim ond lle cyfyngedig sydd gan y safleoedd, felly mae'n bosibl y bydd angen cyfyngu ar fynediad i'r cyhoedd am resymau iechyd a diogelwch tra bod lorïau yn cyfnewid cynwysyddion llawn â rhai gwag.

Cerddwyr

Rhaid i gerddwyr ymweld â swyddfa'r safle am ganllawiau ynghylch gwaredu deunyddiau. Wrth ymweld, sicrhewch:-

• eich bod yn glynu wrth y rheolau a arddangosir yn y safleoedd;
• eich bod yn gwrando ar gyfarwyddiadau gweithiwr/gweithwyr y safle;
• eich bod yn cadw at y lôn lwytho ddynodedig.

Os na fyddwch yn glynu wrth yr uchod, mae'n bosibl y gofynnir i chi adael y safle.

Allaf i ddod i'r safle mewn fan neu gerbyd mawr?
Cynllun Trwydded Fan

Rhaid i bob preswylydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sydd am ddod â gwastraff i'r CAGC mewn fan neu drelar wneud cais am drwydded.

Nid oes angen trwydded ar geir na cherbydau 4x4 (os nad yw'r seddi wedi'u tynnu o'r cefn).

Car â threlar	√	Cerbyd â chynffon godi	x
Carafanét	√	Cerbyd dros 3.5 tunnell	x
Cerbyd 4x4 â chefn casglu	√	Cerbyd â gwely fflat	x
Fan	√		

Mae trwyddedau ar gael am ddim i breswylwyr y Fwrdeistref Sirol, ac ni chyfyngir arnynt – er hynny, dim ond uchafswm o 3 trwydded y dydd a ganiateir fesul cartref. Rhaid cyflwyno'r drwydded wrth i chi gyrraedd y safle. Mae pob trwydded yn ddilys hyd nes iddynt gael eu defnyddio.

Mae trwyddedau ar gael ar-lein drwy ymweld â merthyr.gov.uk neu:

Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful (01685 725000).

Wrth wneud cais am drwydded, bydd rhaid ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad. Hefyd, bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch hunaniaeth a'ch cyfeiriad yn y safle yr ydych yn bwriadu ymweld ag e.

Rhaid i breswylwyr ddidoli eu gwastraff gymaint ag y bo'n ymarferol a'i osod yn y cynwysyddion perthnasol ar y safle.

Mae'n ofynnol i unrhyw ddefnyddwyr safle sy'n dod â gwastraff neu ddeunyddiau ailgylchu mewn cerbyd masnachol, o dan y Cynllun Trwydded, gwblhau "Ffurflen Datganiad o Wastraff Anfasnachol" wrth gyrraedd y safle.

Gwelliannau i'r Safle

Cynllun Rheoli Traffig – Dowlais
Er mwyn gwella llif y traffig yn safle Dowlais, mae'r Caban Lles wedi cael ei symud o res ucha'r safle. Gwnaed hyn i greu lôn ddwbl fel y gall cerbydau symud rhwng y cynwysyddion sgip heb orfod aros am gerbydau eraill i symud ymlaen.

Mae bwnd rheoli traffig wedi'i leoli wrth fynedfa/allanfa'r safle i ostwng cyflymder y cerbydau wrth iddynt gyrraedd a gadael y safle.

NODER: Er mwyn sicrhau bod y traffig yn llifo'n rhwydd yn gyffredinol, dylai defnyddwyr y safle ddefnyddio'r lôn dde yn unig i stopio a gwaredu'u deunyddiau. **Neilltuir y lôn chwith ar gyfer goddiweddyd yn unig.**

Gorsafoedd Didoli
Mae CBSMT yn gweithredu Polisi Dim Gwastraff Heb ei Ddidoli yn y CAGCau. Gofynnir i ddefnyddwyr y safle ddidoli'u deunyddiau cyn cyrraedd y safleoedd. Bydd defnyddwyr sy'n cyrraedd y safle â gwastraff cymysg/deunyddiau mewn bagiau heb eu didoli, yn cael eu cyfeirio at y gorsafoedd didoli lle y gofynnir iddynt ddidoli'u deunyddiau i rai unigol y gellir eu hailgylchu, ac yna'u gosod yn y cynhwysydd perthnasol.

Gofynnir i ddefnyddwyr safle nad ydynt am gydymffurfio â'r gofyniad hwn, gymryd eu gwastraff o'r safleoedd a'i ddidoli gartref cyn dychwelyd, neu ddefnyddio gwasanaeth casglu wrth ymyl y ffordd lle bo'n gymwys.

Ni ellir gwaredu unrhyw wastraff heb ei ddidoli yn y CAGCau.

Derbyn Paent
O ddydd Mercher 1 Ebrill 2020, newidiwyd y ffordd y gallwch waredu nwyddau paent yn eich Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGCau) lleol.

Gall y safleoedd dderbyn paent gwlyb mewn cynhwysydd o'r maint y byddech yn ei ddefnyddio ar gyfer jobsys yn y cartref (hyd at 10 litr fel arfer), os yw gweithredwyr y safle o'r farn y gellir ei ailddefnyddio.

Ni ellir derbyn paent gwlyb yr ystyrir ei fod yn anaddas i'w ailddefnyddio.

Gellir dod â chynwysyddion paent i'w hailgylchu, os ydyn nhw'n wag, yn y cynwysyddion metel neu blastig cyfatebol. Os yw'r paent yn sych ac wedi caledu, gellir ei osod yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol.

Os oes raid i chi waredu paent gwastraff, tip defnyddiol i gynorthwyo'r paent i sychu allan yw gadael y caead oddi ar y cynhwysydd am rai dyddiau cyn dod ag e i'r CAGC.

Ni dderbynnir unrhyw hylif teneuo paent, bitwmen, hylifau peryglus eraill, paent masnachol na thuniau mawr (dros 10 litr).

Cynllun Paent am Ddim
Mae paent am ddim ar gael i breswylwyr y Fwrdeistref Sirol o'r CAGCau. Caiff y paent ei gadw yn Adran Ailddefnyddio'r safle, ochr yn ochr â'r Banciau Tecstilau.

Caiff y paent ei storio yn ôl y math o baent ydyw. Dim ond paent sydd ar gael ar y safle ar adeg ymweliad y preswylydd fydd ar gael i'w gasglu. Ni ellir archebu ymlaen llaw unrhyw fath o baent, na lliw na mesur ohono. Dylai unrhyw unigolyn a hoffai fanteisio ar y gwasanaeth rhad-ac-am-ddim hwn, hysbysu aelod o'r staff cyn cael mynediad i'r Adran Ailddefnyddio Paent.

P'un ai bod gennych waith DIY bach neu fawr, hoffem eich croesawu chi i gymryd mantais o'r gwasanaeth hwn a lleihau maint y paent da sy'n cael ei waredu!

Caniau a Chynwysyddion Plastig
Gellir gwaredu caniau a chynwysyddion plastig mewn cynhwysydd agored yn y ddau safle. Mae hyn yn cyflymu'r broses o osod caniau unigol mewn Banc Ailgylchu a hefyd yn rhoi'r modd ychwanegol i gasglu cynwysyddion plastig. Caiff yr eitemau hyn eu didoli yn yr Orsaf Trosglwyddo Gwastraff ynghyd â deunyddiau tebyg sy'n cael eu casglu wrth ymyl y ffordd.

Banciau Papur
Mae Banciau Papur caeedig wedi'u gosod yn y ddau safle i sicrhau fod papur yn cael ei gadw'n sych. Mae hyn yn ofyniad gan y diwydiant ailgylchu papur.
NODER: Ni ddylai papur gael ei osod ar ben y Banc Papur.

Gwastraff Masnachol

Os oes gweithiwr masnachol/adeiladwr/cwmni preifat arall yn gwneud gwaith ar eich rhan, dylech sicrhau fod sgip yn cael ei logi i waredu unrhyw wastraff a gynhyrchir. Eich gwastraff chi ydyw a chi sy'n gyfrifol am sicrhau ei fod yn cael ei waredu'n briodol ac yn gyfreithlon.

Ni ddylid dod â gwastraff o eiddo masnach i'r Canolfannau Ailgylchu oni bai eich bod wedi ymrwymo i Gynllun Derbyn Ailgylchu Masnach yr Awdurdod Lleol.

Nid yw CBSMT yn derbyn gwastraff masnachol yn y CAGCau. Os drwgdybir bod y deunydd yn wastraff masnachol, yna mae'n bosibl y bydd y gweithwyr yn gwrthod ei dderbyn.

Os ydych chi'n fasnachwr ym Merthyr Tudful, rhaid i chi sicrhau fod gennych Gontract Gwastraff Masnachol mewn lle i reoli'ch gwastraff yn y ffordd briodol.

Cynllun Derbyn Ailgylchu Masnach

Mae gan fusnesau Merthyr yr hawl i ddefnyddio'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Nowlais i gael gwared ar eu heitemau ailgylchu masnachol a restrir yn y tabl isod. Er mwyn manteisio ar y cynllun hwn, rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Gwastraff Masnachol ar 01685 725363 i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth. Os byddwch yn penderfynu cofrestru ar ei gyfer, bydd gennych fel cwsmer yr hyblygrwydd i ddefnyddio gwasanaethau wrth ymyl y ffordd yn ogystal â'r gwasanaethau a ddarperir gan Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

Ar gyfer busnesau nad ydynt ar hyn o bryd ar gontract gyda'r Awdurdod i gasglu gwastraff/ deunyddiau ailgylchadwy, mae'n ofynnol iddynt arwyddo contract. Codir tâl blynyddol untro ar gyfer y gwasanaeth hwn sy'n darparu Nodyn Trosglwyddo Gwastraff Blynyddol, ac mae'n ofyniad cyfreithiol. Ni chodir tâl ar gwsmeriaid presennol gan eu bod eisoes yn talu'r ffi hon fel rhan o'u contract presennol.

Diolch

Er mwyn parhau i gyflawni targedau adfer Llywodraeth Cymru, rhaid i CBSMT wella'r maint o wastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio. Dim ond gyda'ch cefnogaeth barhaus chi y gellir cyflawni hyn.

Cysylltwch â Chyngor Merthyr Tudful drwy:

ffonio: 01685 725000

e-bostio: wasteservices@merthyr.gov.uk

ymweld â: www.merthyr.gov.uk